# Rhos Fullbrook Ceredigion

The Wildlife Trust of South and West Wales
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru



Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future

**The Wildlife Trust of South and West Wales** works to conserve all forms of wildlife. We manage nearly 100 nature reserves comprising woodlands, meadows, moors, marshes, and islands such as Skomer. We campaign on your behalf against damaging development, provide advice on your land management needs and help people of all ages to understand and enjoy our wildlife.

**You can help**....Volunteers are essential to the Trust. Whatever your interest and ability your spare time is valuable to us.

**Members are vital** in supporting our work. Your contribution makes the Trust even more effective and every member strengthens the voice of the Trust. Join today if you want to help save local wildlife.

For more details of volunteering or joining as a member, call your nearest office;

Tondu, Bridgend 01656 724100
Cilgerran, Cardigan 01239 621600
Or email: info@welshwildlife.org

**Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** yn gweithio i warchod pob math o fywyd gwyllt. Rydym yn rheoli bron i 100 o warchodfeydd natur sy'n cynnwys coetiroedd, dolydd, rhosydd, corsydd ac ynysoedd fel Sgomer. Rydym yn ymgyrchu ar eich rhan yn erbyn datblygiadau niweidiol, yn darparu cyngor ynghylch eich anghenion rheoli tir ac yn helpu pobl o bob oed i ddeall a mwynhau ein bywyd gwyllt.

**Gallwch chi helpu**....Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol i'r Ymddiriedolaeth. Waeth beth yw eich diddordeb a'ch gallu, mae eich amser sbâr yn werthfawr i ni.

**Mae aelodau'n hanfodol** i gefnogi ein gwaith. Mae eich cyfraniad chi yn gwneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy effeithiol fyth ac mae pob aelod yn cryfhau llais yr Ymddiriedolaeth. Ymunwch â ni heddiw os am helpu i achub bywyd gwyllt lleol.

Am fanylion pellach am wirfoddoli neu am ymuno fel aelod, ffoniwch eich swyddfa agosaf;

Tondu, Pen-y-bont ar Ogwr 01656 724100
Cilgerran, Aberteifi 01239 621600
Neu e-bost: info@welshwildlife.org

This leaflet was produced with support from:
Cynhyrchwyd y daflen hon gyda chefnogaeth gan:

Gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Supported by the Heritage Lottery Fund

Produced by Fitzpatrick Woolmer Design - 01634 711 771

**Reserve description** - 2.2 hectares of flower-rich unimproved grassland with scrub, woodland and stream.

**Directions to Rhos Fullbrook** - From the A485 Aberystwyth-Tregaron road, turn north on the lane to Fullbrook Mill at SN668616. Continue up the lane until you pass Fullbrook Mill; the reserve is then on your left on the far side of the bridge. In dry weather, park on the verge, but if the ground is soft or you are in any doubt, please park in front of Fullbrook Farm at the very end of the lane. Do not obstruct the lane which must be kept clear at all times.

**To get to the reserve** - Cross two stiles at SN668626 to enter the reserve from the lane.

**Buses** - The T21 Aberystwyth-Tregaron bus passes the bottom of the lane to Fullbrook Mill.

**Access notes** - Some areas of the reserve are extremely wet and wellies are essential at all times of year, especially in the woodland. There are some short sections of board walk but no formal footpaths so visitors are welcome to wander.

**Your safety** - If walking alone, please tell someone where you are and what time to expect you back. Wear appropriate clothing and footwear, planning ahead for changes in the weather. An Ordnance Survey map is always useful for additional information. Please follow the countryside code.

**Disgrifiad o'r warchodfa** - 2.2 hectar o laswelltir heb ei wella sy'n llawn blodau, gyda phrysgwydd, coetir a nant.

**Cyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd Rhos Fullbrook** - O'r A485 rhwng Aberystwyth a Thregaron, trowch tua'r gogledd ar y lôn i Felin Fullbrook yn SN668616. Ewch yn eich blaen i fyny'r lôn nes mynd heibio i Felin Fullbrook; mae'r warchodfa ar y chwith i chi wedyn, yr ochr bellaf i'r bont. Os yw'n sych, parciwch ar ochr y ffordd ond os yw'r ddaear yn wlyb ac os oes gennych unrhyw amheuaeth, parciwch o flaen Fferm Fullbrook ym mhen draw un y lôn. Peidiwch â chau'r lôn – mae'n rhaid ei chadw'n glir bob amser.

**Cyrraedd y warchodfa** - Croeswch ddwy gamfa yn SN668626 er mwyn mynd i mewn i'r warchodfa o'r lôn.

**Bysus** - Mae'r bws T21 o Aberystwyth i Dregaron yn mynd heibio i waelod y lôn at Felin Fullbrook.

**Nodiadau mynediad** - Mae rhai darnau o'r warchodfa'n eithriadol wlyb ac mae'n rhaid cael esgidiau glaw drwy gydol y flwyddyn, yn arbennig yn y coetir. Ceir rhai darnau byr o lwybrau pren, ond dim llwybrau cerdded ffurfiol, felly mae croeso i ymwelwyr grwydro.

**Eich diogelwch** - Os yn cerdded ar eich pen eich hun, dywedwch wrth rywun ble rydych a phryd ddylent eich disgwyl yn ôl. Gwisgwch ddillad ac esgidiau priodol, gan gynllunio ymlaen llaw ar gyfer newid yn y tywydd. Mae map Arolwg Ordnans yn ddefnyddiol bob amser am wybodaeth bellach. Cadwch at y Cod Cefn Gwlad os gwelwch yn dda.

**www.welshwildlife.org**

The water vole has suffered a catastrophic decline across the UK over the last 15 years, chiefly due to habitat loss and predation by American mink. Sometimes mistaken for brown rats, water voles are smaller with a more rounded body, short ears, blunt noses, furred tail and reddish brown fur. Water voles are semi-aquatic and can inhabit rivers, streams, ditches, canals, lakes and ponds. They favour slow flowing watercourses with steep, soft banks suitable for burrowing. Ideally, at least 60% of the bankside cover should consist of tall, luxurious plant growth. Wetlands with tussocks of grass, rush, reed or sedge also offer habitat for water voles. Sites shaded by shrubs or trees are less favoured.

The water vole is a Local Biodiversity Action Plan (LBAP) species in Ceredigion. The Wildlife Trust of South and West Wales are working in partnership with other conservation organisations in the county to help ensure a brighter future for the species on Rhos Fullbrook and elsewhere in the county. For more information on the Action Plan contact the Wildlife Trust, or visit the coast and countryside page on www.ceredigion.gov.uk

Mae llygoden bengron y dŵr wedi dioddef dirywiad trychinebus ar draws y DU dros y 15 mlynedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith ei bod wedi colli ei chynefin a bod y minc Americanaidd wedi bod yn ei hysglyfio. Weithiau, bydd llygod pengron y dŵr yn cael eu camgymryd am lygod mawr brown, ond maent yn llai, mae eu cyrff yn fwy crwn ac mae ganddynt glustiau byr, trwynau di-flaen, cynffonau blewog a ffwr o liw cochaidd-brown. Mae llygod pengron y dŵr yn lled-ddyfrol ac maent yn gallu byw mewn afonydd, nentydd, ffosydd, camlesi, llynnoedd a phyllau. Maent yn ffafrio cyrsiau dŵr sy'n llifo'n araf gyda chloddiau serth, meddal sy'n addas er mwyn tyrchu. Yn ddelfrydol, dylai o leiaf 60% o'r hyn sy'n tyfu ar y clawdd fod yn blanhigion tal, moethus. Mae gwlyptiroedd sy'n cynnwys twmpathau o borfa, brwyn, cyrs neu hesg yn cynnig cynefin i lygoden pengron y dŵr hefyd. Nid ydynt mor hoff o safleoedd dan gysgod llwyni neu goed.

Mae'r llygoden dŵr yn rhywogaeth sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) yng Ngheredigion. Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru'n gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cadwraeth eraill yn y sir i helpu i sicrhau gwell dyfodol i'r rhywogaeth yn Rhos Fullbrook ac mewn mannau eraill yn y sir. Am wybodaeth bellach am y Cynllun Gweithredu, cysylltwch â'r Ymddiriedolaeth Natur neu ewch am dro i'r dudalen ar yr arfordir a chefn gwlad yn www.ceredigion.gov.uk



Water vole
Llygoden dŵr



Gatekeeper
Y Porthor


| Butterflies of Rhos Fullbrook | Glöynnod byw Rhos Fullbrook |
|---|---|
| Gatekeeper | Y Porthor |
| Green-veined white | Lâr wen wythiennog |
| Large white | Lâr wen fawr |
| Orange-tip | Boneddiges y wig |
| Painted Lady | Lâr fach dramor |
| Peacock | Y Paun |
| Ringlet | Lâr fach y glaw |
| Small Copper | Copor bach |
| Small Tortoiseshell | Lâr fach amryliw |
| Small white | Lâr wen fach |
| Speckled wood | Brith y coed |
| Wall brown | Lâr fach y fagwyr |





Speckled wood
Brith y coed



Large white
Lâr wen fawr




Most of this reserve is marshy grassland, or 'rhos pasture', which is an internationally threatened habitat. Because it depends on high rainfall and poor drainage it tends to occur only in western Britain, and 50% of the rhos pasture in the UK is found in Wales.

The reserve is extremely flower-rich for its size, and over 100 species of higher plants have been recorded here. The grassland has never been improved for agriculture. Some areas are taller, rushy, damp flushes, where you will see the orange flowers of Bog asphodel, and a number of orchids. In the slightly drier areas, the pretty blue flowers of Devil's-bit scabious are common later in the summer.

In the wetter parts, the vegetation is very short and contains a lot of moss. Careful inspection of these areas will reveal two native species of insectivorous plants, Round-leaved sundew and Butterwort.

The southern boundary of the reserve runs along the stream, which is home to a variety of dragonflies and damselflies as well as the nationally threatened water vole.

The reserve is grazed by ponies in the summer. This stops the taller species like rushes and grasses like Purple moor-grass from taking over, and means that the many flowering plants can continue to thrive.

Mae'r rhan fwyaf o'r warchodfa hon yn laswelltir corsiog neu'n 'borfa rhos', sy'n gynefin dan fygythiad yn rhyngwladol. Gan ei fod yn dibynnu ar lawiad trwm a draeniad gwael, dim ond yng ngorllewin Prydain y mae i'w ganfod fwy neu lai ac mae 50% o'r holl borfa rhos yn y DG i'w ganfod yng Nghymru.

Mae'r warchodfa'n cynnig cyfoeth eithriadol o flodau o ystyried ei maint ac mae mwy na 100 o rywogaethau o blanhigion tir uwch wedi'u cofnodi yma. Nid yw'r glaswelltir wedi'i wella erioed ar gyfer amaethyddiaeth. Mae rhai ardaloedd yn llaciau llaith o frwyn tal ac yno fe welwch flodau oren Llafn y bladur a nifer o degeirianau. Yn yr ardaloedd ychydig yn sychach, mae blodau glas del Bara'r cythraul yn gyffredin tua diwedd yr haf.

Yn y rhannau gwlypach, mae'r llystyfiant yn fyr iawn ac yn cynnwys llawer o fwsogl. Drwy archwilio'r mannau hyn yn ofalus, gwelir dau rywogaeth brodorol o blanhigion pryfysol, Chwys yr haul a Thafod y gors.

Mae ffin ddeheuol y warchodfa'n rhedeg ar hyd y nant, sy'n gartref i weision y neidr a mursennod amrywiol, yn ogystal â'r llygoden ddŵr, sydd dan fygythiad yn genedlaethol.

Porir y warchodfa gan ferlod yn ystod yr haf. Mae hyn yn atal y rhywogaethau talach, fel brwyn a glaswelltau fel Plu'r gweunydd, rhag meddiannu'r safle, ac mae'n sicrhau bod y planhigion sy'n blodeuo'n parhau i ffynnu.

**Key** **Allwedd**

- Reserve boundary Ffin y warchodfa
- Entrance Mynedfa
- Gate Giât
- Stile Camfa

50m approx
50m tua

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol
Protecting **Wildlife** for the Future